Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn 2023

Daethpwyd yn ôl i drefn eleni i gynnal Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn oedd yn agored i'r byd ar Ddydd Sadwrn 13 o Fai yn y Neuadd Bentref ar benwythnos hyfryd braf. Yr oedd hyn bythefnos ynghynt na'r arfer i roi bwlch arbrofol rhwng bwrlwm yr Eisteddfod a phrysurdeb Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cafwyd Pabell Lên yn ystod y bore Gwener yn Ysgol O. M. Edwards, pryd y traddodwyd beirniadaethau'r gwaith cartref cynradd. Dyfarnwyd y Gadair Cynradd i Annie Blain a llongyfarchiadau gwresog iddi am ei champ. Yna, ar y Dydd Sadwrn bu cystadlu graenus yn ystod cyfarfodydd y bore, prynhawn a'r hwyr. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa deilwng a gwerthfawrogol wedi dod i fwynhau'r wledd o gystadlu.

Ein beirniaid am eleni ac yn derbyn ein diolch diffuant oedd Robat Arwyn, Rhuthun (Cerdd), Esyllt Tudur Adair, Llanrwst (Adrodd a Cerdd Dant), Huw Dylan Jones, Llangwm (Llenyddiaeth Uwchradd ac Agored), Haf Llewelyn, Llanuwchllyn (Llenyddiaeth Cynradd) ac Elsbeth Jones, Llanuwchllyn (Arlunio a Chrefft). Y llywyddion gwadd oedd Lisa Lloyd Davies, Betws Gwerfyl Goch a Meilir Owen, Penygroes. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt am anerchiadau ac atgofion hynod ddifyr, a rhoddion anrhydeddus at drysor yr Eisteddfod.

Diolch i Dilys Ellis-Jones, Eirian Roberts, Euros Roberts a Carwyn Siddall am arwain y cyfarfod mor esmwyth a didrafferth. Yr ydym yn ffodus ac yn ddyledus iawn i'r cyfeilyddion, sef Siwan Davies, Nia Morgan, Dylan Cernyw ac Eirian Owen fu'n ddiwyd yn ystod y dydd.

Diolch i Gyfeillion Ysgol O M Edwards am fod yng ngofal y bwyd, gan sicrhau lluniaeth blasus trwy gydol y dydd i'r beirniaid, swyddogion a'r cyhoedd. Bu nifer wrthi yn ddiwyd cyn yr Eisteddfod yn gwerthu Tocynnau Noddwyr - diolch yn fawr iawn i'r gwerthwyr ar prynwyr! Diolch hefyd i'r stiwardiaid am werthu tocynnau wrth y drws a chadw trefn trwy gydol y dydd ac i Martha, Jini a Heti fu yng ngofal y rhubanau ar ochr y llwyfan.

Gwerthfawrogwn unwaith yn rhagor gymorth a chefnogaeth flynyddol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a Chronfa'r Degwm Cyngor Gwynedd. Eleni, trwy gefnogaeth Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a Llenyddiaeth Cymru bu modd cynnal gweithdai crefft gyda Mari Elain Roberts dros y Pasg a gweithdy barddoniaeth gyda Gruffudd Antur i ddisgyblion uwchradd Ysgol Godre'r Berwyn. Diolch yn arbennig hefyd i Nerys a Nia (Henryd gynt) ac i deulu Gwernhefin am eu cefnogaeth arferol trwy roddion gwobrau.

Diolch i Ann Jones am ei harweiniad fel Llywydd y Pwyllgor ac i'r Trysorydd, Dylan Evans am ei waith trylwyr a diymhongar a gweddill aelodau'r pwyllgor fu'n dewis darnau a chynorthwyo mewn amrywiol ffyrdd yn ystod y cyfnod paratoadol. Rhaid hefyd yw estyn ein gwerthfawrogiad yn ôl yr arfer i staff a chymorthyddion Ysgol O. M. Edwards am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Siwan Davies am ei chymorth diflino yn cydgordio trefniadau rhwng y pwyllgor a'r Ysgol.

Yr oedd Cadair yr Eisteddfod eleni yn rhoddedig gan y Pwyllgor, a braf oedd cael clywed gan Huw Dylan Jones wrth draddodi o'r llwyfan bod teilyngdod. Ifan Alun Puw o Llan gipiodd y Gadair am gyfres o gerddi ar y testun "Lliwiau". Cafwyd cyfle i gydnabod ei gyfraniad helaeth i'r ardal o'r llwyfan, a chafwyd cyfarchion barddonol gan Alan Jones Evans, Beryl H. Griffiths a Haf Llewelyn. Diolch i Carwyn Siddall am fod yn Feistr y Ddefod ac i Gwynant Roberts ac Arfon Griffiths am ddehongliad ysbrydoledig o Gân y Cadeirio i gyfeiliant Eirian Owen.

Yn olaf ond yn sicr nid leiaf carem fel Pwyllgor ddiolch i'r cystadleuwyr, rhieni a hyfforddwyr a ddaeth i gystadlu a chefnogi Eisteddfod Llanuwchllyn eleni, gan obeithio y cawn fynd o nerth i nerth yn y dyfodol. Dyma'r buddugwyr (o Lanuwchllyn oni nodir yn wahanol) â llongyfarchiadau gwresog i bawb fu'n cystadlu: -

Unawd Blwyddyn Meithrin: 1af Mabli Nel Jones; 2il Gweno Llŷr Evans, Rhydymain; 3ydd Sel Williams, Llangywer. Unawd Blwyddyn Derbyn: 1af Tanwen Anderson; 2il Wil Llewelyn Jones; 3ydd Sia Childs. Unawd Bl. 1 a 2: 1af Ianto Owen; 2il Lleucu Jones; 3ydd Caron Edwards. Unawd Bl. 3 a 4: 1af Caradog Jones; 2il Emrys Jarman; 3ydd Tegid Gwent. Parti Canu Bl 3 a 4: 1af Parti Bechgyn a Parti Merched. Unawd Bl. 5 a 6: 1af Bela Davies, Betws Gwerfyl Goch; 2il Math Jones; 3ydd Cati Siriol Pritchard. Deuawd dan 12: 1af Cati Siriol Pritchard ac Elen Aur Roberts. Deuawd dan 16: 1af Deio Emlyn Edwards, Parc a Brychan Edwards. Côr neu Barti dan 12 oed: 1af Parti'r Aran; 2il Parti Carndochan. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed Cynradd: 1af Marged Aur; 2il Grug Gwent; 3ydd Malen Roberts. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed Uwchradd: 1af Malena Aled, Parc. Unawd Bl. 7, 8 a 9: 1af Lliwen Jones; 2il Cadi Williams; 3ydd Deio Emlyn Edwards a Malena Aled. Côr neu Barti dan 16 oed: 1af Parti'r Llan. Unawd dan 19 oed: 1af Morgan Jones. Canu Emyn Agored: 1af Arfon Griffiths. Unawd Gymraeg: 1af Arfon

Griffiths. Y Brif Unawd: 1af Arfon Griffiths; 2il Gwynant Roberts. Côr neu Barti Agored: 1af Côr Peniel; 2il Côr Tegalaw.

Unawd Cerdd Dant Bl. 1 a 2: 1af Lleucu Jones. Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4: 1af Emrys Jarman; 2il Beca Jones; 3ydd Iori Emlyn Edwards. Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6: 1af Bela Davies; 2il Math Jones. 3ydd Cati Siriol Pritchard. Côr neu Barti dan 12 oed: 1af Côr yr Ysgol. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 1af Deio Emlyn Edwards; 2il Lliwen Jones; 3ydd Cadi Williams. Deuawd Cerdd Dant dan 16 oed: Lliwen ac Elias Jones. Unawd Cerdd Dant Agored: 1af Lowri Jarman.

Adrodd Blwyddyn Derbyn: 1af Jona Childs; 2il Miriam Siddall; 3ydd Wil Llewelyn Jones. Adrodd Blwyddyn Meithrin: 1af Mabli Nel Jones; 2il Elena Evans, Rhydymain. 3ydd Eurig Llewelyn, Capel Garmon. Adrodd Bl. 1 a 2: 1af Ianto Owen; 2il Lleucu Jones; 3ydd Enfys Jones. Adrodd Bl. 3 a 4: 1af Emrys Jarman; 2il Iori Emlyn Edwards, Parc; 3ydd Tegid Gwent a Caradog Jones. Adrodd Bl. 5 a 6: 1af Gruff Owen; 2il Idris Edwards; 3ydd Math Jones a Grug Gwent. Adrodd Bl. 7, 8 a 9: 1af Malena Aled; 2il Brychan Edwards; 3ydd Elias Jones. Cyd-Adrodd dan 16 oed: 1af Parti'r Llan. Adrodd dan 19 oed: 1af Lea Mererid, Pwllheli. Adrodd Agored: 1af Rhys Jones, Corwen.

Y Gadair: Ifan Alun Puw. Telyneg: Gwilym Hughes, Llanfairpwll. Tri Thriban: Awel Jones. Englyn: Elen Edwards, Caernarfon. Barddoniaeth dan 19 oed: 1af Robin Humphreys, Ysgol Botwnnog; 2il Mei Madrun, Ysgol Botwnnog; 3ydd Non Humphreys, Ysgol Botwnnog. Barddoniaeth Bl. 7, 8 a 9: Joseff Thomas, Ysgol Godre'r Berwyn; 2il Lliwen Jones; 3ydd Lliwen Jones. Bl. 5 a 6: 1af Annie Blain; 2il Idris Edwards a Marged Aur Horan; 3ydd Cati Pritchard, Math Jones, Cameron Blinston, Awel Jones a Grisial Jones. Barddoniaeth Bl. 3 a 4: 1af Lleucu Gwen; 2il Casi Jones a Beca Jones;3ydd Emrys Jarman, Leah Jones a Seren Glyn Jones.

Rhyddiaith Agored: Martin Coleman, Swydd Derby. Rhyddiaith Agored (Portread): Menna Medi, Groeslon. Rhyddiaith dan 19 oed: 1af Lea Mererid, Pwllheli. Rhyddiaith Bl. 7, 8 a 9: 1af Iago Evans, Ysgol Botwnnog; 2il Alwen Hughes, Ysgol Botwnnog; 3ydd Fflur Morgan, Ysgol Bro Pedr. Rhyddiaith Bl. 5 a 6: 1af Math Jones; 2il Macsen Newton, Llansannan; 3ydd Mabon Jones, George Smith ac Ifan Roberts. Rhyddiaith Bl. 3 a 4: 1af Casi Non Jones; 2il Ifan Alun Jones; 3ydd Seren Glyn Jones. Rhyddiaith Bl. 2 1af: Ianto Owen; 2il Gwydion Evans, Caron Edwards ac Enfys Jones; 3ydd gweddill bl 2. Rhyddiaith Bl. 1 1af Lleucu Jones; 2il Macie Blinston, Amy Nephi-Williams, Ewan Dafydd a Cal Jones; 3ydd gweddill bl 1. Rhyddiaith Blwyddyn Derbyn: 1af Miriam Siddall; 2il Bedwyr Jarrett, Tanwen Anderson, Moi Brennan, Owi Moi Mitchell, Sia Childs a Heledd Pugh; 3ydd Nansi James, Wil Llewelyn Jones, Jaxli Redman a Jona Childs.

Arlunio Agored: 1af Awel Jones. Arlunio Bl. 5 a 6: 1af Cati Pritchard a Nia Roberts; 2il Tomi Prys Davies a George Smith, Osian Rowlands a Mabon Jones; 3ydd Cameron Blinston, Math Jones a Gruff Owen. Arlunio Bl. 3 a 4: 1af Casi Non Jones ac Ollie Sewards; 2il Willow Smith ac Efan Dafydd; 3ydd Cara Creighton a Leah Jones. Arlunio Bl. 1 a 2: 1af Poppy-May Williams a Greta Williams; 2il Macie Blinston ac Ewan Dafydd; 3ydd Mabon Roberts a Gwydion Evans. Arlunio Blwyddyn Derbyn: 1af Bedwyr Jarrett ac Owi Moi Mitchell; 2il Heledd Pugh a Miriam Siddall; 3ydd Jona Childs, Nansi James, Sia Childs, Tanwen Anderson, Wil Llewelyn, Jaxli Redman; Arlunio Blwyddyn Meithrin (Ysgol): 1af James Orton a Sel Williams; 2il Leo Parry ac Elena Evans 3ydd Mabli Nel a Nel Roberts.

Crefft Bl. 7, 8 a 9: 1af Lliwen Jones; 2il Lliwen Jones. Crefft Bl. 5 a 6: 1af Grug Gwent; 2il Elen Aur Roberts. Crefft Bl. 3 a 4: 1af Daniel Jones; 2il Tegid Gwent. Crefft Bl. 1 a 2: 1af Ioan Rowlands a Ianto Owen; 2il Caron Edwards a Mabon Llywelyn; 3ydd Eurwen Huws a Cal Jones. Crefft Blwyddyn Meithrin: 1af Nel Roberts ac Aran Jones; 2il Sel Williams a Meredydd; 3ydd gweddill bl meithrin. Crefft Blwyddyn Derbyn: 1af Nansi James a Moi Brennan; 2il Jona Childs a Wil Jones; 3ydd gweddill bl derbyn.

<u>Tlysau a Thariannau</u>

Barddoniaeth Cynradd: Annie Blain; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Ryddiaith (Tlws er cof am Mr a Mrs Gwyndaf Davies):** Leah Mererid; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Adrodd dan 16 oed (Cwpan er cof am Eilir Wyn Parry, Y Wern):** Gruff Owen; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Cerdd neu Gerdd Dant (Cwpan er cof am Mrs Enid Pierce Jones):** Lliwen Jones**; Cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd rhwng 16 a 30 oed (Cwpan er cof am Elin Mair Jones):** Lowri Jarman; **Canu Emyn Agored (Cwpan Goffa D. Lloyd Jones):** Arfon Griffiths.